------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Agenda - Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad

Lleoliad:

**Ystafell Pwyllgor 2 a Zoom**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 1 Ebrill 2025

Amser: 09.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Meriel Singleton**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddSafonau@senedd.cymru

---

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

## 2 Ymchwiliad i Urddas a Pharch: Sesiwn dystiolaeth 1

(9.30 - 10.00)

Douglas Bain, Comisiynydd Safonau, Senedd.

## 3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn

## 4 Atebolrwydd Aelodau Unigol o'r Senedd: Sesiwn dystiolaeth 1

(10.00 - 10.10) (Tudalennau 1 - 6)

Douglas Bain, Comisiynydd Safonau, Senedd.

## 5 Atebolrwydd Aelodau Unigol: Dichell fwriadol - Ymateb Llywodraeth Cymru

(10.10 - 10.30) (Tudalennau 7 - 15)

## 6 Trafod adroddiad gan y Comisiynydd Safonau yn unol â Rheol Sefydlog 22.2(i)

(10.30 - 10.50)

# Eitem 4

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Julie James AS/MS**
**Y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni**
**Counsel General and Minister for Delivery**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Hannah Blythyn AS
Cadeirydd, Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd

26 Mawrth 2025

Annwyl Hannah,

Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad am gynnal ei ymchwiliad i Atebolrwydd Aelodau Unigol ac am yr adroddiad ar Ddichell Fwriadol, a gyhoeddwyd ar 19 Chwefror 2025.

Rwyf wedi nodi ymatebion Llywodraeth Cymru i argymhellion y Pwyllgor yn Atodiad 1. Rwy'n falch o ddweud fy mod wedi derbyn, neu wedi derbyn mewn egwyddor, bob un o'r argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru ac eithrio Argymhelliad 4. Rwyf wedi nodi'r argymhelliad hwnnw ar hyn o bryd, hyd nes y bydd rhagor o waith wedi'i wneud mewn perthynas ag Argymhelliad 3.

Sylwaf fod rhai o argymhellion y Pwyllgor wedi'u cyfeirio at y Senedd, ac er mai wedi nodi'r argymhellion hynny yr wyf, rwy'n cydnabod bod cysylltiadau rhyngddynt a'r argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru. Felly, mae fy swyddogion a minnau yn barod i barhau i ymgysylltu â'r Pwyllgor a'r Senedd wrth i'r gwaith o fwrw ymlaen â'r argymhellion fynd rhagddo.

Mae safonau i Aelodau'r Senedd, gan gynnwys gweithredu'n onest, yn fater sydd o bwys sylfaenol o ran cynnal ymddiriedaeth mewn democratiaeth ac mewn cynrychiolwyr etholedig yng Nghymru. Mae adroddiad y Pwyllgor yn gyfraniad pwysig at hynny.

Yn gywir,

Julie James

**Julie James AS/MS**
Y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni
Counsel General and Minister for Delivery

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Cwnsler.Cyffredinol@llyw.cymru
correspondence.Counsel.General@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

# Atebolrwydd Aelodau Unigol – Dichell Fwriadol

## Ymateb i adroddiad y Pwyllgor Safonau Ymddygiad

Mawrth 2025

Cyhoeddodd y Pwyllgor Safonau Ymddygiad ei adroddiad ar Ddichell Fwriadol ar 19 Chwefror 2025, yn cynnwys 11 argymhelliad, chwech ohonynt ar gyfer Llywodraeth Cymru. Lluniwyd yr adroddiad yn rhan o ymchwiliad y Pwyllgor i Atebolrwydd Aelodau Unigol. Roedd yr ymchwiliad hefyd yn ystyried mater Adalw, sy'n destun adroddiad ar wahân gan y Pwyllgor.

Mae ymatebion Llywodraeth Cymru i'r argymhellion gan y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni wedi'u cynnwys isod.

Bydd goblygiadau ariannol yr argymhellion a'r dewisiadau polisi ehangach yn cael eu hystyried fel rhan o ddatblygu unrhyw fesurau deddfwriaethol neu anneddfwriaethol i ddarparu ar gyfer ymateb Llywodraeth Cymru i argymhellion y pwyllgor.

# Ymatebion i'r argymhellion

## Argymhelliad 1

*Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru, ar sail y dystiolaeth a gasglwyd gan y Pwyllgor ar ddiffiniadau cysylltiedig o fewn deddfwriaeth bresennol, ddiffinio dichell fwriadol yn glir mewn deddfwriaeth sy'n ymwneud ag etholiadau'r Senedd; a'i fod yn cael ei ailadrodd mewn unrhyw Reolau Sefydlog a chanllawiau cysylltiedig.*

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Rwyf wedi ystyried yr argymhelliad hwn ochr yn ochr ag argymhelliad 3 - bod Llywodraeth Cymru yn ystyried ehangu adran 75 o Orchymyn Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) i gyflwyno trosedd o ddichell fwriadol i ymgeiswyr yn etholiadau'r Senedd. O ystyried y bydd angen diffiniad ar unrhyw drosedd newydd, bydd angen i Lywodraeth Cymru ystyried hyn yn fanylach. Bydd y dystiolaeth y mae'r pwyllgor wedi'i chasglu yn helpu i lywio unrhyw ddiffiniad terfynol a nodir mewn deddfwriaeth.

## Argymhelliad 2

*Mae'r Pwyllgor yn argymell bod adran 28 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn cael ei diwygio er mwyn galluogi'r Senedd i benodi aelodau lleyg i eistedd ar y Pwyllgor Safonau Ymddygiad.*

Ymateb: Derbyn

Mae cryfhau annibyniaeth y gyfundrefn Safonau yn elfen bwysig o wella atebolrwydd Aelodau, ac rwy'n falch o dderbyn yr argymhelliad hwn.

Gall cyflwyno aelodau lleyg i'r pwyllgor hefyd ddarparu ffynhonnell o bersbectif ac arbenigedd annibynnol, allanol o fewn y broses safonau.

Byddaf yn ceisio cynnwys darpariaeth ddeddfwriaethol i roi effaith i'r argymhelliad hwn yn y Bil rwy'n ei gyflwyno i sefydlu system adalw.

## Argymhelliad 3

*Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried ehangu adran 75 o Orchymyn drafft Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) (sy'n efelychu'r*

*ddarpariaeth a gynhwysir yn adran 106 o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 mewn perthynas ag etholiadau'r Senedd) i'w gwneud yn drosedd i ymgeisydd neu unrhyw asiant etholiadol wneud neu gyhoeddi datganiadau/gwybodaeth sy'n camarwain drwy ddichell fwriadol at ddibenion effeithio ar sut y rhoddir pleidlais mewn etholiad.*

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor:

Nodaf fod y Pwyllgor yn cydnabod yr heriau wrth geisio cyflwyno un system i atal ymddygiad o ddichell fwriadol i ymgeiswyr ac Aelodau'r Senedd, ac yn argymell delio â'r ddwy rôl gyfansoddiadol wahanol drwy eu cyfundrefnau priodol.

Rwy'n ddiolchgar i'r pwyllgor am nodi dull posibl i fynd i'r afael â dichell fwriadol i ymgeiswyr, a byddaf yn ystyried hyn wrth roi ystyriaeth fanwl i greu trosedd etholiadol newydd. Fodd bynnag, nid wyf o'r farn y gellir ehangu Erthygl 75 o Orchymyn drafft Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) ("y Gorchymyn Cynnal Etholiadau") i gyflwyno'r drosedd newydd. Nid addasiad o'r drosedd bresennol o ddatganiadau anwir ynghylch ymgeiswyr yw'r hyn sydd wedi'i nodi gan y pwyllgor, ond yn hytrach cyflwyno trosedd newydd sy'n wahanol mewn nifer o agweddau sylfaenol, gan gynnwys cwmpas y troseddau, pwy all eu cyflawni a'r niwed y maent yn ceisio mynd i'r afael ag ef. Rwyf wedi cyfarwyddo swyddogion i ddatblygu trosedd arfaethedig, yn unol â'r hyn a ragwelir gan y Pwyllgor, a fydd yn gofyn am asesiad o'r effeithiau posibl ar y System Gyfiawnder ac ar ein trefniadau ehangach ar gyfer cyfraith etholiadol ar gyfer etholiadau Cymru. Credaf y dylai trosedd arfaethedig fod yn destun ymgynghoriad pellach, sy'n golygu nad yw'n ymarferol ei chynnwys yn y Gorchymyn Cynnal Etholiadau terfynol ar gyfer etholiad y Senedd yn 2026.

Rwyf wedi ystyried yr argymhelliad hwn ochr yn ochr ag argymhelliad 4 o ystyried y cysylltiad â'r awgrym gan y pwyllgor i greu'r drosedd newydd yn y Gorchymyn Cynnal Etholiadau. Hefyd, o ystyried argymhelliad 1 y pwyllgor, bydd Llywodraeth Cymru yn dechrau gweithio ar ystyried diffiniad o ddichell fwriadol cyn yr etholiad, gan y bydd yn cefnogi'r gwaith i fwrw ymlaen â'r argymhelliad hwn yn ogystal ag adolygiad y Senedd o Reol 2 o God Ymddygiad yr Aelodau, fel y nodir yn argymhelliad 7.

## Argymhelliad 4

*Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn cael ei diwygio i nodi y caiff unrhyw Orchymyn Cynnal Etholiadau a wneir o dan adran 13 gynnwys darpariaeth ar gyfer dichell fwriadol, gan sicrhau bod dichell fwriadol yn fater sy'n cael ei ystyried yn y gorchmynion cynnal etholiadau a wneir ar gyfer etholiadau yn y dyfodol.*

Ymateb: Nodwyd

Wrth fwrw ymlaen â'r gwaith mewn ymateb i argymhelliad 3, bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried a oes angen unrhyw ddiwygiad i adran 13 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Bydd yr ystyriaeth hon yn cynnwys goblygiadau cyfansoddiadol posibl unrhyw ddiwygiad.

## Argymhelliad 5

*Yn ystod cyfnod etholiad, mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn archwilio ffyrdd o fynnu bod ymgeiswyr sydd wedi gwneud, neu ledaenu, datganiadau sy'n camarwain drwy ddichell fwriadol yn cywiro'r cofnod, ac y gwneir y cywiriadau hynny:*

- *Gan roi'r un amlygrwydd iddynt â'r datganiad anghywir;*
- *Cyn gynted â phosibl; a*
- *Thrwy eu cyhoeddi ar y llwyfan gwybodaeth i bleidleiswyr er mwyn sicrhau tryloywder.*

Ymateb: Derbyn

Yn unol â'm hymateb i Argymhelliad 3 y mae'r argymhelliad hwn yn gysylltiedig ag ef, rwyf wedi cyfarwyddo swyddogion i archwilio ffyrdd o orfodi ymgeiswyr sy'n sefyll ar gyfer etholiad i'r Senedd i gywiro'r cofnod yn ystod cyfnod yr ymgyrch etholiadol. Rwy'n credu y byddai'r cyfle hwn yn fuddiol i atal yr ymddygiad hwn cyn dechrau ymchwiliadau ffurfiol a allai arwain at euogfarn. Felly, byddaf yn ystyried yr argymhelliad hwn ochr yn ochr ag ystyriaeth fanwl bellach mewn ymateb i argymhelliad 3.

## Argymhelliad 6

*Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Mesur Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2009 yn cael ei ddiwygio i ganiatáu i'r Comisiynydd Safonau gychwyn ymchwiliadau ac i sicrhau bod swyddogaethau'r Comisiynydd Safonau yn cyd-fynd â Seneddau eraill y DU.*

Ymateb: Derbyn

Mae rôl y Comisiynydd Safonau yn fater i'r Senedd yn y pen draw. Ar y sail honno rwyf wedi derbyn argymhelliad y Pwyllgor a byddaf yn edrych i gyflwyno darpariaethau deddfwriaethol i roi effaith iddo, o fewn y Bil y byddaf yn ei gyflwyno i sefydlu system adalw.

## Argymhelliad 7

*Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Senedd yn disodli Rheol 2 o'r Cod Ymddygiad presennol (sy'n gymwys i Aelodau drwy'r amser) gyda dwy reol wahanol newydd:*

- *Ehangu'r rheol bresennol i 'weithredu'n onest' a datgan yn benodol na chaniateir i Aelodau wneud datganiadau sy'n camarwain yn fwriadol; ac*
- *Ei gwneud yn ofynnol i'r rhai sy'n gwneud datganiadau ffeithiol anghywir gywiro'r cofnod cyn gynted â phosibl.*

Ymateb: Nodwyd

Ar gyfer y Senedd y mae'r argymhelliad hwn. Felly, nid wyf wedi darparu ymateb.

## Argymhelliad 8

*Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Rheolau Sefydlog, a'r canllawiau cysylltiedig, yn cael eu diwygio i gyflwyno proses ffurfiol dau gam i'r Aelodau gywiro'r cofnod. Byddai hyn yn cynnwys:*

- *Gweithdrefn i ganiatáu i Aelodau, naill ai'n wirfoddol neu ar gais Aelod arall, gywiro'r cofnod/tynnu datganiadau yn ôl mewn achosion o fân anghywirdebau ac anghywirdebau anfwriadol;*
- *Cyflwyno gofyniad i Aelodau gywiro datganiadau ffeithiol anghywir ar y cyfle cyntaf pan fo angen gwneud hynny ar argymhelliad y Comisiynydd Safonau, a hynny drwy 'hysbysiad cywiro';*
- *Gofyniad bod cywiriadau'n cael eu cyhoeddi gan roi'r un amlygrwydd iddynt â'r datganiad anghywir; a*
- *Darpariaeth y byddai methu â chydymffurfio â hysbysiad cywiro yn torri'r Cod Ymddygiad ac y byddai'n destun sancsiwn yn sgil ymddygiad sy'n camarwain drwy ddichell gan yr Aelod.*

Ymateb: Nodwyd

Ar gyfer y Senedd y mae'r argymhelliad hwn. Felly, nid wyf wedi darparu ymateb.

## Argymhelliad 9

*Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylid cyhoeddi adroddiadau a gyhoeddir ar dorri'r Cod Ymddygiad, yn ogystal â hysbysiadau cywiro a ddyroddir, ar dudalennau gwe Aelodau'r Senedd a, lle bo'n berthnasol, yng Nghofnod y Trafodion.*

Ymateb: Nodwyd

Ar gyfer y Senedd y mae'r argymhelliad hwn. Felly, nid wyf wedi darparu ymateb.

## Argymhelliad 10

*Mae'r Pwyllgor yn argymell, pe bai deddfwriaeth yn cael ei chyflwyno i sefydlu gweithdrefn sy'n diswyddo a disodli Aelod:*

- *Bod y Senedd yn cytuno ar ganllawiau o ran sancsiynau ac yn eu cyhoeddi; ac*
- *Y dylai unrhyw ganllawiau sy'n cynnwys dichell fwriadol fel sail nodi mai dim ond pan gafwyd achos difrifol o dorri'r cod y dylid ei hargymell.*

Ymateb: Derbyn

Rwy'n gefnogol i'r cynnig i'r Pwyllgor ddatblygu "canllawiau o ran sancsiynau" ac yn derbyn yr argymhelliad i'r graddau y mae'n cael ei gyfeirio at Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn cyd-fynd â'm hymateb i adroddiad y Pwyllgor ar Adalw. Rwyf hefyd yn cytuno ei bod yn bwysig bod y Senedd yn cytuno ar y canllawiau hynny a'u bod felly yn eiddo i'r Senedd ei hun. Mater i'r Pwyllgor fydd datblygu'r canllawiau, ac i'r Senedd gytuno arnynt, felly ni fyddai'n briodol i mi wneud sylwadau ar yr argymhelliad i'r graddau y mae'n ymwneud â'u cynnwys ar y pwynt hwn.

## Argymhelliad 11

*Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cyflwyno mecanwaith deddfwriaethol i alluogi unrhyw weithdrefn apelio yn y dyfodol, i'w dwyn i rym gan y Senedd.*

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Rwy'n ymwybodol bod y Senedd wedi dileu ei phroses apelio flaenorol yn 2022. Mae'n fater i'r Senedd benderfynu pa broses apelio y mae'n dymuno ei defnyddio ar gyfer y broses safonau, pe bai proses apelio yn cael ei defnyddio, a bydd yr angen am ddeddfwriaeth yn dibynnu ar gwmpas y broses apelio y mae'r Senedd yn dymuno ei mabwysiadu. Fodd bynnag, mewn ymateb i'r argymhelliad hwn, rwyf wedi cyfarwyddo swyddogion i archwilio pa ddarpariaethau y gall fod eu hangen ac y gellid eu cynnwys yn y Bil y byddaf yn ei gyflwyno i sefydlu system adalw.